# MARWNAD,

ER

COFFADWRIAETH

AM

## *Y Parchedig DAFYDD WILLIAMS,*

Gweinidog yr Efengyl yn Llanfair-Muallt,

YR HWN A FU FARW Y 7FED O RAGFYR, 1829,
YN 49 OED.

---

**GAN IEUAN ARTHUR,**
*MAES-CEFN-Y-FFORDD.*

---

Mae'r doeth a'r annoeth yr unwedd—yn marw,
Mae mawrion a bonedd,
A'r diwyd rai o'r diwedd,
Gampwyr byd a gwymp i'r bedd.

---

LLANYMDDYFRI: Argraffwyd yn Swyddfa y LLEUAD,
*GAN J. JONES.*

## *MARWNAD, &c.*

1 TRWM yw'r newydd a dramwyodd
  Hyn a barodd alar mawr
I blant Seion sy'n y frwydyr,
  Megis brodyr ar y llawr,
O waith colli doeth weinidog
  Anwyl, enwog yn ei ddydd,
Mae blinderau a gofidiau,
  Llawer sy' â'u brònau'n brudd.

2 Och! oedd hyn i gantref *Buallt*,
  Och! o fewn i'r *Wenallt* hardd,
Och! waith colli'r fath blanhigyn
  Oedd â'i wreiddyn yn yr ardd;
Och! waith tòri canghen ffrwythlon
  Oedd dàn lwyth o ffrwythau llawn,
A flagurodd er mawr gynnydd,
  Y boreuddydd a'r prydnawn.

3 Mae dolurus gyd-alaru
  Fry ag obry, yma 'thraw,
Yn enwedig drwy'r eglwysi
  Mae galaru ar bob llaw,
O waith marw un mòr enwog,
  A godidog gyda'r gwaith,
Yn y frwydyr gyda'i frodyr,
  Hyd nes cyrhaedd pèn ei daith.

4 Fe ga'dd WILLIAMS nerth i sefyll
  Megis yn y gwersyll gwiw,
Ar y muriau hwyr a boreu
  Hir flynyddau dros ei Dduw;
Fe bregethodd e'r bygythion
  Yno i ddynion yn ei ddydd,
Nes daeth awr ei ymddatodiad,
  Ca'dd o'i alwad fyn'd yn rhydd.

5 Yn ddiyngan fe ddaeth angeu,
  Gelyn llawn â'i golyn llym,
T'rawodd biler mawr o'r eglwys
  Draw i orphwys yn ei rym;
Hyny barodd gwmwl dirfawr
  Ar ei goror oedd mòr glir,
Seren oleu a fachludodd
  Adre' hedodd hon yn wir.

6 Du oer dristwch sydd yn *Llanfair*,
  Alaeth, trymder mawr ei bwys,
Waith rhoi yno un o'r werin,
  Blaenor byddin, dàn y gwys,
Ar oer arffed bedd i orphwys,
  Yno dodwyd pwys ei ben,
Yn y graian i gael gorwedd,
  Acw'n llariaidd dan y llen.

7 Fe ddihangodd WILLIAMS anwyl,
  Caw'd ei arwyl gyda ni,
Gwaith ei osod ef mewn amdo
  Bu mawr wylo dagrau'n lli,
Am nas gwelir mwy mo'i wyneb,
  Ac na chlywir dim o'i lais
Trwy'r eglwysi a'r ardaloedd
  Hyn a barodd oeraidd glais.

8 Fe ga'dd gymhorth cyfamserol
Yn wastadol gyda'r gwaith,
Gydag ordeinhadau'r eglwys
Cerddai'n gymhwys drwy ei daith,
Gan bregethu yn dra golau
Gyflawn ddyledswyddau dyn,
Ac am drefn iachawdwriaeth,
Mewn athrawiaeth bur gytun.

9 Yn y winllan fe fu'n ddiwyd
Yn ei fywyd hyd ei fedd,
Fe lafuriodd wrth lafaru,
Gan ddyrchafu Brenin hedd,
A chan ddyweyd mòr angenrheidiol
Ydoedd gwaredigol ras,
Sefwch ronyn yn y frwydyr
Megis brodyr ar y ma's.

10 Cofiwn am ei ddwys gynghorion
Mewn odfeion lawer gwaith,
Gyda doethion iawn orch'mynion
Amryw droion trwy ei daith,
A ddywedodd gyda theimlad
Llawn o gariad at ei Dduw,
Ac mewn dolur am gyflyrau
Gwael eneidiau dynol-ryw.

11 Gwelir adwy yn yr eglwys
Eisiau eisoes ar ei ol,
Aeth at Iesu i *Baradwys*,
I gael gorphwys yn ei gôl;
Mae e'n moli ei Anwylyd,
O fewn parthau'r gwynfyd gwych,
Ffydd a drödd yn olwg iddo,
Nid oes arno eisiau drych.

12 Huan oleu a fachludodd
Yn ardaloedd gwlad y de',
Darfu grym ei belyderau
Yma'n ddiau yn mhob lle;
Dros y terfyn-gylch ehedodd,
Fe ddihangodd trwy ei daith,
Wedi cyrhaedd pen ei yrfa
Mewn i'r lân orphwysfa faith.

13 Gweinidogion a blaenoriaid,
Dïaconiaid yn gytun,
Sy'n galaru mewn gwyl oeraidd,
Gyda'r gwaraidd rai bob un;
Na foed i chwi ddigàloni,
Daliwch ati ronyn bach,
Fe saif Iesu gyda'i eiddo
Hyd nes delont adre'n iach.

14 Fe fu Dafydd yn y frwydyr
Gyda'i frodyr, do cyn hyn,
Cafodd nerth gan Dduw'r uchelder,
Trwy gyfiawnder Iesu gwyn,
Tra fu'n aros ar y muriau,
Megis milwr ar y ma's;
Traethodd yno'r hen athrawiaeth
Fawr am iachawdwriaeth gras.

15 Melys oedd ei ymadroddion
A'i gynghorion gloywon glwys,
A bregethodd ef i'r bobl
Am beth o drag'wyddol bwys;
Mewn i'r odfa pan y deuai,
Fe ddysgwyliai rhai gael gwledd,
Am ei fod e'n arfer delio
Gyda Seilo, Brenin hedd.

16 Cariodd e'r athrawiaeth iachus,
Ddiesgeulus, oll ar led
Gan ddyweyd bod addewidion
Braf i'r rhai sydd union gred,
Ac am gyflwr anghysurus
Pob rhyw gyfeiliornus rai,
Fe fu gofid ar ei galon
Amryw droion yn ddilai.

17 Tadmaeth tyner oedd i'r clwyfus
Rai f'ai'n ofnus lawer gwaith,
Wrth wel'd meithder y gwastadedd,
Cyn cael cyrhaedd pen eu taith;
Taer weddïodd ar Dduw'r nefoedd,
Godi eu hysbrydoedd hwy,
Nes caent olwg ar ogoniant
Dwyfol haeddiant marwol glwy'.

18 Ei ddyddanwch oedd Duw'r heddwch,
A'i ddifyrwch ddyddiau'i oes
Oedd dyrchafu'r Arglwydd Iesu,
Am ei brynu ar bren y groes;
Aberth cyfiawn pen *Calfaria*,
Gwir Fessiah oedd ei sail,
Trwy gyfiawnder mawr y Duwdod,
A theilyngdod Adda'r ail.

19 Darfu oriau dyddiau Dafydd,
Mae e'n llonydd gyda'r llu,
Fe fu marw iddo'n elw,
Ca'dd ei alw fynu fry,
Wedi gorphen i gael gorphwys
O fewn i'r baradwysaidd wlad,
Gyda'i Frawd, a chyda'i Brïod,
Gyda'i Dduw, a chyda'i Dad.

20 Na thristewch fel rhai heb obaith,
Ceisiwch berffaith gadarn ffydd,
Gyda chalon edifeiriol
Yn wastadol, nos a dydd;
Er bod un o'r gwyliedyddion
Wedi dianc tua thre',
Fe bâr Duw ryw lais i alw
Rhyw un eto i lanw 'i le.

21 'Nawr fe gollwyd ei gyfeillach,
Ni ddaw mwyach yma 'nol,
Pob rhyw enw, pawb a aned,
A gânt fyned ar ei ol;
Ar fyr enyd cawn ein symud
Draw dàn gyrau'r gweryd gwyw,
Fe ddaw'r alwad yn ddirofyn,
Angeu yw terfyn pob dyn byw.

22 Cyflawn oedran ein Iachawdwr
A Phryniawdwr dynol-ryw,
Oedd deunaw cant a naw ar hugain,
Heb un amgen, eglur yw,
Pan rho'wd WILLIAMS, wr mwyneidd-lān
Yn y graian dan y gro,
A'i anfarwol enaid siriol
Hedodd fry i'r nefol fro.

23 Naw a deugain o flynyddau
Ydoedd yntau, meddant hwy,
Pan y rho'wd ei gorff i'r gweryd,
Heb ddychwelyd yma mwy;
A'i enaid sydd ar fynydd Seion,
Yno'n moli'r Oen dilyth,
Wedi dechreu'r anthem hyny,
Sydd heb ddiwedd iddi byth.

24 Arglwydd dàl ei anwyl Brîod
Trwy bob trallod yn y byd,
Dyro wedd dy wyneb siriol
Yn wastadol iddi o hyd;
Pan b'o 'stormydd arni'n curo,
Nertha 'i yno'n gadarn iawn,
Nes b'o llewyrch Haul cyfiawnder,
O'r uchelder arni'n llawn.

25 Duw rho nerth i fod yn ddiwyd,
Nid yw'n bywyd byr ond brau,
Nid oes amser hir i aros,
Mae pob einioes yn byrhau;
Nid yw dyddiau dyn ond dyrnfedd,
Yn y cau-fedd maes o law,
Byddwn ninnau yn ddiameu,
Dàn law angeu, brenin braw.

26. Bechaduriaid, dewch at Iesu,
Na foed i chwi fod yn ol,
Ac na chariwch lestri gweigion,
Fel gwnaeth y morwynion ffôl;
Ceisiwch nerth i lwyr ymwrthod
A phob pechod îs y nen,
Gan roi'r clod i Dduw'r gogoniant,
Parch a moliant, byth. *Amen.*

DIWEDD.

*J. Jones, Argraffydd, Llanymddyfri.*